# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-15-06(p.5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau Hydref 26 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
### Teitl: Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru 2005-06

#### Diben

1. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol ASGC 2005-06 i'r Pwyllgor, sy'n darparu trosolwg o dueddiadau ac ansawdd y gwasanaethau gofal yng Nghymru ac yn adrodd sut y cynhaliodd ASGC ei ddyletswyddau rheoleiddio.

#### Rhoi cyfle i ystyried canfyddiadau'r adroddiad.

#### Crynodeb ac Argymhellion

3. Nodi a gwneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol ASGC 2005-06. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol ar Hydref 12$^{fed}$ 2006.

#### Cefndir

#### Adroddiad Blynyddol ASGC 2005-06

4. Mae Adroddiad Blynyddol ASGC yn darparu trosolwg o dueddiadau ac ansawdd y gwasanaethau gofal yng Nghymru. Mae'n bodloni gofynion statudol Deddf Gofal Iechyd a Chymdeithasol 2003, sy'n golygu bod yn rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys:

- Canfyddiadau ASGC wrth arfer ei swyddogaethau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000,
- Y ffordd y gwnaeth ASGC gyflawni'r swyddogaethau hynny.

5. Hwn yw pedwerydd Adroddiad Blynyddol ASGC, ac mae ystod y wybodaeth y mae'n ei gwmpasu wedi datblygu - er enghraifft - ceir dadansoddiad newydd yn ôl ardaloedd awdurdod lleol a bwrdd iechyd lleol yn ogystal â rhanbarthau arferol ASGC.

6. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i ystod o gynulleidfaoedd gan gynnwys y cyhoedd, y rhai sy'n gwneud polisïau, comisiynwyr a'r gwasanaethau rheoledig eu hunain. Mae'r Adroddiad ar gael i'r Pwyllgor, a gellir ei weld hefyd drwy glicio ar y cyswllt canlynol: http://www.csiw.wales.gov.uk/fe/default.asp?n1=5

7. Trafodir Adroddiad Blynyddol ASGC yn y Cyfarfod Llawn ar Dachwedd 21ain.

## Themâu a Chanfyddiadau Cyffredinol

8. Mae ASGC yn rheoleiddio dros 6,000 o leoliadau ac asiantaethau, gan ddefnyddio'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol a osodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae chwe elfen allweddol i waith ASGC:

- Cofrestriad – penderfynu pwy sy'n cael darparu gwasanaethau,
- Arolygiad – arolygu'r gwasanaethau hynny a chyhoeddi adroddiadau,
- Cwynion – ymchwilio ac ymdrin â chwynion,
- Cydymffurfiaeth – cefnogi cydymffurfio â'r rheoliadau,
- Gorfodaeth – sicrhau bod Deddf Safonau Gofal a'r rheoliadau cysylltiedig yn cael eu bodloni,
- Cyfrannu at ddatblygu polisi – mae Adroddiad Blynyddol statudol ASGC yn rhan allweddol o hyn.

9. Mae Crynodeb Gweithredol a Throsolwg yr adroddiad yn nodi bod gwasanaethau o ansawdd da ledled Cymru, a gwelwyd tystiolaeth o welliannau mewn nifer o sectorau. Mae llawer o ddarparwyr a'u staff yn gweithio'n galed i fodloni'r gofynion. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn amlygu bod pryderon a diffyg cysondeb yn parhau i fodoli mewn nifer o wasanaethau allweddol.

10. Yn benodol, mae'r adroddiad yn amlygu mai mewn gwasanaethau gofal dydd i Blant y bu'r prif welliannau. Mae gwarchodwyr plant erbyn hyn yn bodloni gofynion y rheoliadau i raddau helaeth, ac mae'r adroddiad yn nodi bod hyn yn gyflawniad sylweddol. Cafwyd canfyddiadau cadarnhaol hefyd ar draws yr ystod lawn o leoliadau i blant dan 8 mlwydd oed. Mae ASGC yn ymateb drwy leihau nifer yr arolygiadau i warchodwyr plant o tua 1,000 yn 2005-06.

11. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi bod angen rhoi sylw i nifer o themâu sy'n codi dro ar ôl tro ar draws gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau eraill i blant. Roedd hyn yn canolbwyntio ar wendidau yn y Datganiad o Ddiben, sef dogfen gyfreithiol allweddol sy'n amlinellu nodau, amcanion, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â'r Cynllunio Gofal, materion Staffio a chadw Cofnodion.

12. Canfuwyd pryderon arbennig mewn gwasanaethau preswyl i blant a gwasanaethau preswyl i oedolion. Er y canfuwyd rhai gwelliannau yn yr adroddiad, mae'r gwendidau o bwys a ganfuwyd mewn Cartrefi Plant y llynedd yn parhau ar gyfer 05-06. Mae'r rhain yn cynnwys – datganiadau o ddiben, cynllunio gofal, asesiad risg, goruchwylio gan reolwyr, sicrhau ansawdd, addasrwydd y staff a'r lefelau staffio. Mae angen rhoi sylw hefyd i hyfforddi a goruchwylio staff, polisi a fframwaith gweithdrefnol ar gyfer amddiffyn plant a chadw cofnodion.

13. Yn yr un modd, er bod peth tystiolaeth o arfer da, nid yw'r gwelliannau a ganfuwyd mewn cartrefi gofal y llynedd wedi'u cynnal. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud ag arferion gofal sylfaenol, a oedd yn cynnwys meysydd craidd megis cynllunio gofal, asesiad risg a rheoli meddyginiaeth. Yn ogystal, roedd angen yn parhau ynglyn â gwella datganiadau o ddiben a'r dull o gadw cofnodion. Er bod safonau'r gymhareb ar gyfer gwelyau sengl yn cael ei bodloni i raddau helaeth, cafwyd rhai

pryderon o hyd ynglyn ag agweddau allweddol eraill o'r safle. Er bod gwelliannau mewn cymwysterau rheoli, roedd ar y llaw arall bryderon ynglyn â recriwtio, archwilio cefndir staff yn briodol, cefnogi a hyfforddi'r staff yn gyffredinol, a'r lefelau staffio.

14. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglyn â meysydd gwasanaeth eraill megis mabwysiadu a maethu, ac ysgolion, ac mae hefyd yn cwmpasu'r meysydd cymharol newydd o reoleiddio gofal cartref a lleoli oedolion. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaethau hyn wedi gwella.

15. Mae'r adroddiad yn edrych ar batrwm a thueddiadau gwasanaethau. Mae'n creu darlun o amrywiaeth sylweddol yng Nghymru. Mae hefyd yn amlwg mai'r sector annibynnol sy'n parhau i ddarparu'r mwyafrif helaeth o'r gwasanaethau. Er enghraifft, y sector annibynnol sy'n darparu 86% o'r cartrefi gofal a 73% o'r cartrefi plant. Mae lleoedd cartrefi plant yn parhau i fod wedi'u canolbwyntio mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

Er ei bod yn ymddangos bod lleoedd cartrefi gofal wedi gostwng rhywfaint, dylai'r ceisiadau newydd a dderbyniwyd, a oedd yn aros am benderfyniad, yn sicr wneud iawn am hyn. O ystyried y rhain, byddai'r darlun cyffredinol yn y sector cartref gofal yn un o dwf. Yn y gwasanaethau gofal dydd i blant, gwelwyd twf eleni mewn gwarchod plant, gofal dydd llawn a gofal y tu allan i'r ysgol.

16. Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio'r newidiadau eang yn null ASGC o reoleiddio, ac mae'n amlinellu'r ffordd y cynhaliwyd cynllun peilot o'r diwygiad mewn pedwar maes allweddol yn ystod 2005-06. Roedd y newidiadau yn canolbwyntio ar:

- ymagwedd gymesur at arolygu, gydag anghenion y lleoliad yn penderfynu ar y dwyster
- profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn tanategu'r arolygiad
- gostwng unrhyw faich diangen ar ddarparwyr, gan gynnwys proses hunanasesu newydd
- cynyddu ystod y dulliau - gan gynnwys cynyddu'r elfen ddirybudd yn sylweddol ar gyfer arolygiadau
- Ymblethu gwaith ASGC a rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill yn fanylach.

17. Mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar berfformiad ASGC, hynny yw, sut y bodlonodd ASGC ei hamcanion a'i thargedau yn ystod 2005-06. Bodlonwyd y cyfrifoldebau rheoleiddio yn y meysydd allweddol sef cofrestriad, arolygiad, cwynion, diogelwch a gorfodaeth. Cyflwynodd ASGC hefyd ddull cofnodi arolygiad newydd yn ystod y flwyddyn, ac er na fodlonodd y meincnod a osodwyd ganddo yn llwyr yn ystod y flwyddyn, gwelwyd gwelliant ar y blynyddoedd blaenorol, ac mae arwyddion y bydd y duedd hon tuag at welliant yn parhau. Mae adroddiadau arolygu yn parhau i fod ar gael o swyddfeydd rhanbarthol ASGC, a gellir cael gafael arnynt drwy'r rhyngrwyd.

18. Yn yr adroddiad, nodwyd bod cofrestriad yn parhau i fod yn rhan sylweddol o waith ASGC. Derbyniwyd 1263 o geisiadau newydd gan wasanaethau y llynedd. Cynhaliodd ASGC hefyd ymweliadau monitro ychwanegol â nifer o wasanaethau ble cafwyd pryderon yn ystod y flwyddyn.

19. Mae'r adroddiad yn nodi'n glir bod ASGC yn parhau gyda'i swyddogaeth bwysig o ddiogelu ac amddiffyn, a gwelwyd cynnydd parhaus mewn gwaith amddiffyn plant ac oedolion. Gallai fod hyn fod oherwydd mwy o ymwybyddiaeth o swyddogaeth ASGC.

20. Mae’r adroddiad yn nodi bod ASGC wedi ymdrin â nifer helaeth o gwynion cymhleth yn ystod y flwyddyn, ond yn gyffredinol mae nifer y cwynion y mae ASGC wedi’u hymchwilio wedi gostwng ers y llynedd. Mae’r darlun hwn yn cyd-fynd â’r egwyddorion a gynhwysir yn ‘Gwrando a Dysgu’, ble y disgwylir i ddarparwyr ddatrys cwynion symlach yn uniongyrchol gyda’r defnyddwyr gwasanaeth.

21. Y darparwyr sy’n gyfrifol am ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cynnig. Fodd bynnag, mae ASGC yn gosod gofynion ar y darparwyr pan na fyddant yn bodloni’r rheoliadau. Yna bydd ASGC yn cynnig cymorth i gyflawni cydymffurfiaeth, ac yn sicrhau bod hyn wedi digwydd. Mewn rhai achosion, mae ASGC hefyd yn cynnal trafodaethau ehangach gyda rheolwyr corfforaethol sefydliad, ac yn trafod â chomisiynwyr ac arolygiaethau eraill i sicrhau bod yr holl newidiadau angenrheidiol yn digwydd. Fodd bynnag, pan nad yw’r mesurau hyn yn ddigonol, bydd ASGC yn cychwyn camau gorfodi ffurfiol. Roedd ASGC yn gysylltiedig â nifer gyfyngedig o gamau o’r fath yn ystod 2005-06. Roedd nifer o’r rhain yn gymhleth iawn a chyda phroffil uchel.

22. Mae ASGC wedi ymrwymo adnoddau i gryfhau ei pherthynas â budd-ddeiliaid allweddol eraill yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys datblygu a chwblhau protocolau gydag asiantaethau partner megis Comisiynydd Plant Cymru a’r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliodd ASGC hefyd gynllun peilot o gynnal arolygiadau ar yr un pryd ag Estyn ar gyfer gwasanaethau gofal dydd i blant ac ysgolion.

23. Mae’r adroddiad yn dadansoddi goblygiadau’r canfyddiadau yn y Crynodeb Gweithredol a’r Trosolwg. Mae’n nodi bod y system reoleiddio wedi caniatáu i welliannau sylweddol gael eu gwneud yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ond ceir rhai pryderon pwysig sydd angen sylw o hyd. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn rhybuddio na ddylid ystyried rheoleiddio na gorfodaeth fwy llym fel y conglfeini i ymateb i bryderon ynglyn â chysondeb ansawdd y gofal. Mae’n gwneud y sylw bod arolygu a gorfodi yn swyddogaethau pwysig, ond er hynny, ni all y rhain, ar eu pennau eu hunain, godi ansawdd y gofal sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

24. Mae’r dadansoddiad yn nodi y gallai dibynnu’n llwyr ar orfodi greu llawer o ansefydlogrwydd i’r gwasanaethau ledled Cymru ar yr adeg hon, a chael effaith niweidiol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Ni fyddai ychwaith yn cyflawni’r newidiadau sydd eu hangen ar ei ben ei hun.

25. Mae’r adroddiad yn cynnig strategaeth sy’n gofyn am ail-ystyried cydbwysedd swyddogaeth y darparwr, a’r comisiynydd, gan gynnwys rheoli gofal a rheoliad.

26. Mae’r adroddiad yn atgyfnerthu’r ffaith mai’r darparwyr sydd â’r prif ddyletswydd gofal, ac mae rheolaeth ac arweiniad cryf yn allweddol i gyflenwi gwasanaeth o safon uchel. Mae angen i ddarparwyr sicrhau bod ansawdd yn cael ei ddatblygu ‘o’r tu mewn’.

27. Mae’r adroddiad hefyd yn amlygu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gomisiynu, ond mae angen i hyn ganolbwyntio ar gomisiynu ar gyfer ansawdd yn ogystal â siâp a dosbarthiad.

28. Yn ogystal â hyn, mae hefyd yn awgrymu bod angen cynnal dadl gyhoeddus ynglyn â’r defnydd o

orfodaeth, a buddiannau ystod o ddulliau gorfodi mwy graddedig, a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd a chamau gorfodi amserol.

29. I orffen, mae'r adroddiad yn cydnabod bod y cyd-destun strategol newydd a amlinellir yn 'Bywydau Bodlon – Cymunedau Cefnogol' yn ganolbwynt i'r newid sydd ei angen mewn gofal cymdeithasol ac yn ceisio gwneud cyfraniad sylweddol i'r ymgynghoriad hwnnw.

## Casgliad

30. Mae Adroddiad Blynyddol 2005-06 yn darparu trosolwg cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau unigol ledled Cymru. Mae'r adroddiad yn ceisio cynorthwyo darparwyr gwasanaeth i werthuso eu gwasanaethau eu hunain, ac mae'r crynodeb gweithredol a'r trosolwg yn rhestru'r prif themâu sydd angen i'r cynllunwyr strategol, y datblygwyr polisi a'r comisiynwyr eu datblygu.

31. Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio'r hyn a gyflawnwyd eisoes wrth ddiwygio'r rheoliadau ac sy'n allweddol i fodloni'r ymrwymiadau yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Mae'n egluro bod rhaid i'r gwaith hwn gynnal ei fomentwm er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio yn unol â'r angen a sicrhau bod profiadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu at weithgareddau rheoleiddio.

## Themâu Trawsbynciol

32. Mae'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd yn ystyried Adroddiad Blynyddol ASGC. Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau sy'n gyfrifol yn benodol am Wasanaethau Gofal Dydd i Blant Dan 8 mlwydd oed. Mae ganddi ddiddordeb hefyd yn yr ysgolion a'r colegau a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol ASGC, o gofio mai hi sy'n gyfrifol am addysg.

## Camau ar gyfer y Pwyllgor Pynciau

33. Gwahoddir y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac i fod yn ymwybodol y bydd cyfle pellach i ystyried goblygiadau ehangach yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar Dachwedd 21ain.

Enw cyswllt: Rob Pickford, Prif Weithredwr, ASGC , ffôn 01443 848451